# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Cyllideb

***10. Gareth Jones:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynglyn â chyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1245(BB)*

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt)**: Yr wyf wedi cwrdd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys mewn cyfarfod dwyochrog ac wedi cwrdd â Gweinidogion Cyllid eraill y Gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli gan gynnwys yn y cyfarfod datrys anghydfodau mewn perthynas â'r Gemau Olympaidd.

### Cyllideb

***11. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2011. OAQ(3)1204(BB)*

**Jane Hutt:** Mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer Cymru yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o wariant fis diwethaf.

### Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

***12. Irene James:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diweddar Llywodraeth y DU ar Gymru. OAQ(3)1213(BB)*

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi trafod gydag ystod o bobl, o fewn y llywodraeth a thu allan iddi, am effaith yr adolygiad o wariant a'n hymateb iddo. Byddaf yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn ddiweddarach heddiw lle rhoddir y manylion am ein cynlluniau gwariant sy'n ceisio lleddfu effeithiau gwaethaf toriadau llym Llywodraeth y DU ar wariant.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1231(BB), yn ôl.*

### Dyraniad Cyllideb Cyffredinol ar gyfer y Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

***14. Darren Millar:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r dyraniad cyllideb cyffredinol ar gyfer y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. OAQ(3)1230(BB)*

**Jane Hutt:** Caiff y dyraniad i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol ei wneud fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol. Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol fel y'i nodwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2009 yw £4.5 biliwn. Yr ydym yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn ddiweddarach heddiw.

### Materion Cydraddoldeb

***15. Val Lloyd:*** *Wrth lunio cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i faterion cydraddoldeb. OAQ(3)1226(BB)*

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi mynd ati i sicrhau ein bod yn edrych yn ofalus ar faterion cydraddoldeb wrth ddatblygu'r gyllideb ddrafft. Bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi heddiw a byddwn yn pennu sut yr ydym wedi gwneud hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Cynnwys Rhaglenni Dwyieithog ar S4C

***8. Brian Gibbons:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cynnwys rhaglenni dwyieithog ar S4C. OAQ(3)1351(HER)*

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth yn ddiweddar gyda nifer o wahanol randdeiliaid. Yn ogystal trefnwyd fforwm gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 3 Tachwedd i drafod dyfodol S4C.

### Gwarchod Adeiladau Fictoriaidd ac Edwardaidd yng nghanol De Cymru

***9. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau Fictoriaidd ac Edwardaidd yng Nghanol De Cymru. OAQ(3)1342(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae'r rhanbarth yn fyw o ran gwaith pensaernïol adeiladau Edwardaidd a Fictoraidd—Castell Coch, sy'n adeilad rhestredig gradd I ac yng ngofal Cadw, yw un o brif adeiladau hanesyddol Cymru. Mae'n bwysig bod perchenogion yr adeiladau hyn yn eu cadw mewn cyflwr da er mwyn iddynt gael eu gwerthfawrogi gan bobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

### Blaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru

***10. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(3)1348(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn parhau wedi ymrwymo i gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn 'Cymru'n Un' ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i bobl ac ymwelwyr â'r ardal, ynghyd â sicrhau bod arian y prosiect twristiaeth treftadaeth ar gael ar draws y rhanbarth.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)1336(HER), yn ôl.*

### Newid i'r Digidol yng Nghymru

***12. Trish Law:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am newid i'r digidol yng Nghymru. OAQ(3)1319(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Cwblhawyd y broses o newid i'r digidol yn llwyddiannus yng Nghymru ar 31 Mawrth 2010. Cymru yw'r wlad gyntaf i fod yn gwbl ddigidol. Arweiniwyd y prosiect

gan Digital UK, cwmni dielw a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Cyflawni Amcanion 'Cymru'n Un'

***13. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion Cymru'n Un y mae'n gyfrifol amdanynt. OAQ(3)1309(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf wedi ymrwymo i gyflawni fy ymrwymiadau ar gyfer 'Cymru'n Un', gan gynnwys sicrhau dyfodol sy'n ffynnu i'r iaith Gymraeg,annog mwy o weithgarwch corfforol ar gyfer iechyd gwell, cynyddu twristiaeth drwy fanteisio i'r eithaf ar werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.

## Gwarchod Trefdadaeth y Canolbarth

***14. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod treftadaeth y Canolbarth. OAQ(3)1318(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu treftadaeth ledled Cymru—galluogi pobl i'w mwynhau, helpu pobl i'w deall a'i gwerthfawrogi, a chefnogi'r rhai sy'n ei rheoli.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1356(HER), yn ôl.*